

Adroddiad i'r:	Cyngor
Dyddiad y Cyfarfod:	2 Gorffennaf 2019
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Y Cyng Bobby Feely a'r Cyng Julian Thompson-Hill
Awdur yr Adroddiad:	Graham Boase
Teitl:	Cyflwyno Model Darparu Amgen (MDA) ar gyfer amrywiol weithgareddau/swyddogaethau cysylltiedig â hamdden

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 Mae'r adroddiad yn ymwneud â'r Erthyglau Cymdeithas y mae'n rhaid i'r Cyngor gytuno arnynt yn barod ar gyfer sefydlu Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol Cyfyngedig drwy Warant nid er elw ar gyfer amrywiol weithgareddau a swyddogaethau cysylltiedig â hamdden.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Cael cymeradwyaeth y Cyngor i'r Erthyglau o Gymdeithas drafft a Chytundeb Aelodau fel y'u nodir yn Atodiadau'r adroddiad hwn.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Mae'r Cyngor yn cymeradwyo'r Erthyglau o Gymdeithas drafft a Chytundeb Aelodau fel y'u nodir yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn o ran y Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol Cyfyngedig Drwy Warant nid er elw.
- 3.2 Mae'r cyngor hwnnw'n awdurdodi Bwrdd Prosiect Model Darparu Amgen mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol ar gyfer Lles ac Annibyniaeth a'r Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol i gytuno ar eiriad terfynol y dogfennau y cyfeirir atynt yn 3.1 uchod.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1 Ar 30 Mai 2019, fe wnaeth y Cyngor gytuno i gefnogi sefydlu Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol Cyfyngedig drwy Warant nid er elw fel model darparu amgen ar gyfer amrywiol weithgareddau a swyddogaethau cysylltiedig â hamdden.
- 4.2 Dyma'r math o Gwmni a gaiff ei ymgorffori gan amlaf ar gyfer swyddogaethau nad ydynt yn gwneud elw, heb gyfalaf cyfrannau ac 'aelodau,' yn hytrach na budd-ddeiliaid. Mae'r aelodau'n ymrwymo i gyfrannu swm sydd wedi'i benderfynu eisoes (e.e. £10.00) at rwymedigaethau'r cwmni a fyddai'n ddyledus pe mai'r cwmni'n dirwyn i ben – h.y. y warant.
- 4.3 Dogfen gyfansoddiadol cwmni cyfyngedig drwy warant yw ei Erthyglau Cymdeithas sydd wedi'u cofrestru ar gyfer archwiliad cyhoeddus yn Nhŷ'r Cwmnïau (Erthyglau).

Yr opsiynau ar gyfer y Model Darparu Amgen yw:

- Mabwysiadu'r Erthyglau Enghreifftiol sydd wedi'u rhagnodi yn Neddf Cwmnïau 2006 fel ei Erthyglau.
- Mabwysiadu Erthyglau sy'n seiliedig ar yr Erthyglau Enghreifftiol gyda newidiadau sy'n benodol i ofynion y Model Darparu Amgen.
- Hepgor yr Erthyglau Enghreifftiol yn eu cyfanwydd a chreu Erthyglau unigryw newydd.

Mae cwmnïau awdurdodau lleol ar y cyfan yn mabwysiadu erthyglau'n seiliedig ar yr Erthyglau Enghreifftiol ac yn addasu'r erthyglau hyn gydag erthyglau penodol wedi'u llunio er mwyn darparu amddiffyniad a rheolaeth i'r awdurdod lleol o ran cynnal y cwmni. Dyma'r dull sydd wedi'i fabwysiadu mewn perthynas â'r Erthyglau drafft ar gyfer y Model Darparu Amgen sydd wedi'u drafftio gan ymgynghorwyr cyfreithiol allanol arbenigol ac wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn. Mae'r Erthyglau hyn yn cyfeirio at yr Erthyglau Enghreifftiol, y mae copi ohonynt wedi'i gynnwys yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.

4.4 Wrth ystyried drafftio'r Erthyglau, y brif ystyriaeth oedd cyflawni'r amcanion a amlinellir yn yr achos busnes sydd wedi derbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet a'r Cyngor a oedd i fanteisio ar y buddion treth a geir yn sgil Model Darparu Amgen gan gadw gymaint o reolaeth â phosibl ar gyfer y Cyngor. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Erthyglau'n amlinellu amcanion clir ar gyfer y Model Darparu Amgen ar sail dosbarthu nid er elw, ac yn cadw nifer o bwerau a fyddai fel arall, o bosibl, yn cael eu harfer gan Fwrdd Cyfarwyddwyr y Model Darparu Amgen i'r Cyngor.

4.5 Yn ogystal â'r Erthyglau, bydd Cytundeb Aelodau rhwng y Cyngor a'r Model Darparu Amgen a fydd yn amlinellu nifer o faterion nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr Erthyglau. Bydd hyn yn cynnwys:

- Materion a gadwyd yn ôl nad yw'r Model Darparu Amgen yn gallu mynd i'r afael â hwy heb ganiatâd y Cyngor.
- Dyletswydd ar y Model Darparu Amgen i ddarparu gwybodaeth/hysbysiadau i'r Cyngor.
- Cymeradwyaeth gan y Cyngor o gynllun busnes/cyllidebau blynyddol
- Darpariaeth ar gyfer rôl Bwrdd Llywodraethu Strategol/Pwyllgor Aelod i reoli'r berthynas rhwng y Cyngor a'r Model Darparu Amgen
- Gallu'r Cyngor i archwilio'r Model Darparu Amgen
- Yr angen i'r Model Darparu Amgen fabwysiadu bob un o delerau, amodau, polisiau a gweithdrefnau cyflogaeth y Cyngor.

Mae drafft o Gytundeb yr Aelodau wedi'i gynnwys yn Atodiad 3 yr adroddiad hwn.

4.6 Mae'n bwysig bod y dogfennau hyn yn cael eu darllen ar y cyd â'i gilydd gan eu bod, gyda'i gilydd, yn rhoi darlun cyflawn o'r hyn y gallai'r Model Darparu Amgen ei wneud a sut y bydd y Cyngor yn cadw rheolaeth arno. Er bod yr Erthyglau drafft yn rhoi sawl pŵer i'r Model Darparu Amgen, mae'r Cytundeb Aelod yn nodi'r mesurau rheoli y bydd y Cyngor yn eu rhoi ar waith i reoli'r broses o'u harfer.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Ni fydd y penderfyniad yn cael effaith niweidiol ar Flaenoriaethau Corfforaethol, gan y bydd y Model Darparu Amgen yn cael ei contractio gan y Cyngor i ddarparu'r gwasanaethau presennol yn gysylltiedig â'r gweithgareddau/ swyddogaethau o fewn y cwmpas.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae yna gost prosiect un tro o tua £200,000 os cymeradwyir gweithredu Model Darparu Amgen. Mae'r achos busnes wedi cyfrifo y bydd arbediad referniw net o £800,000 yn cael ei gyflawni ym mlwyddyn 1.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1 Cynhaliwyd yr WIA gan grŵp amlddisgyblaeth o swyddogion yn cynrychioli Hamdden, AD, Cyllid, Cymorth i Fusnesau, Gwasanaethau Cynnal, Lles Cymunedol, Eiddo Corfforaethol, Cynllunio a Pherfformiad Strategol a Rheoli Prosiectau.

7.2 Yn gyffredinol, aseswyd bod effaith y prosiect yn niwtral, gan adlewyrchu'r ffaith fod ystyriaeth ar hyn o bryd ynghylch ffordd arall o ddarparu set penodol o weithgareddau / swyddogaethau, nid yw'n ymwneud â chynnig gweithgareddau/ swyddogaethau gwahanol neu amgen.

8 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Ymgynghoriad allanol

- Trafodaeth gydag arbenigwyr cyfreithiol a TAW sy'n cynnig arbenigedd i'r prosiect.
- Awdurdodau lleol eraill sydd wedi sefydlu Modelau Darparu Amgen am y gwersi a ddysgwyd ganddynt.
- Swyddfa Archwilio Cymru am gyngor
- 'Partneriaethau Lleol' a sefydliad allanol sydd wedi cynnig arweiniad mewn perthynas â'r broses.
- Cyngor Tref y Rhyl mewn perthynas â'r buddiant o fewn SC2.
- Undebau Llafur mewn perthynas â'r effeithiau ar staff.
- Cyngor Celfyddydau Cymru mewn perthynas â chyllid grant

8.2 Ymgynghori Mewnol

- Briffio'r Cabinet, y Cabinet, y Cyngor, Gweithdy Cyllideb yr Aelodau lle rhannwyd y Prosiect yn anffurfiol, a Gweithdy Aelodau'n arbennig ynglŷn â'r Model Darparu Amgen.
- Pob Grŵp Ardal Aelodau
- Adroddiadau i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ynghylch y Brîff Prosiect, a'r ailstrwythuro gwasanaethau sydd angen os cymeradwyir y prosiect.
- Briffio staff a oedd yn cynnwys rhannu gwybodaeth wyneb yn wyneb gyda'r holl Reolwyr o fewn FAHS, briff ysgrifenedig i'r holl staff yn y maes hamdden, a Rheolwyr Canol ar draws y Cyngor, briffio staff wyneb yn wyneb gyda'r holl staff hamdden, ac ymgynghori ffurfiol gyda'r holl staff a effeithir gan unrhyw ailstrwythuro i wasanaethau.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae cyfle i wneud arbedion sylweddol drwy ddarparu'r cyfleusterau a amlinellwyd drwy strwythur cyfreithiol gwahanol. Gan fod yn rhaid i'r Cyngor reoli pwysau cynyddol gyda llai o adnoddau, mae creu cwmni wedi'i reoli gan yr awdurdod lleol i weithredu'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a amlygwyd, yn creu cerbyd i gynhyrchu lefel o arbedion heb orfod torri yn ôl ar wasanaethau. Mae'r adroddiad yn amlinellu amcangyfrif o'r arbedion a'r costau sydd ynghlwm â'r penderfyniad.

9.2 Mae disgwyliad gan y Bwrdd Cyllideb y bydd Model Darparu Amgen newydd yn parhau i gyfrannu at raglen arbedion y Cyngor ac y bydd hyn yn cael ei adlewyrchu mewn cynlluniau busnes i'r dyfodol. Mae model y cwmni arfaethedig yn cynnig strwythur cyfreithiol sy'n caniatáu ystyried twf masnachol ac, os bydd hyn yn llwyddo, gallai gyfrannu at y rhaglen arbedion a helpu lleihau lefel y cymorth ariannol gan y cyngor.

10. Pa risgiau sydd ac oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae risgiau ynghlwm â gweithredu'r Model Darparu Amgen ac mae'r rhain wedi eu cynnwys yn yr achos busnes. Y prif risgiau yw:-

- Gallai newidiadau i Ddeddfwriaeth Genedlaethol yn y dyfodol atal yr arbedion a ragwelir o ran trethi busnes rhag cael eu gwireddu'n llawn.
- Efallai na chaiff yr arbedion TAW eu gwireddu'n llawn drwy fodel LATC nid er elw ac/neu bydd angen statws elusennol er mwyn i'r rheini gael eu gwireddu'n llawn, sy'n cynyddu'r gyfundrefn a reoleiddir a chostau cysylltiedig.
- Bydd costau un tro neu barhaus heb eu rhagweld gyda sefydlu'r Model Darparu Amgen nad ydynt wedi eu hystyried ar y cam gweithredu.
- Nid fydd y Model Darparu Amgen mor llwyddiannus yn ariannol ag y gobeithiwyd a bydd unrhyw gostau ychwanegol yn ei sgil yn disgyn ar y Cyngor i'w hariannu ac/ neu ni fydd y Cwmni'n gallu ail-fuddsoddi'n ddigonol i'w weithgareddau bob dydd oherwydd diffyg cyllid.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

A2 Deddf Llywodraeth Leol 2000

A95 Deddf Llywodraeth Leol 2003

Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Gwerth Gorau)(Pŵer i Fasnachu) (Cymru)
2006